# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 8FED MAWRTH, 2017**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 28/2/17)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Jason Humphreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cyng. Gavin Buckley | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| David Mclean | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Peter Lunt Williams | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi |
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Cynghorydd Michael Sol Owen | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2016, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 7 - 13

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 11 Hydref 2017.

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 12/10/16**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Gavin Buckley (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr) a David McLean (Cynrychiolydd Buddiannau Perchnogion Tir).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2016, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod lleihad bychan yn y nifer o gychod ar yr angorfeydd blynyddol gyda 129 o gychod o gymharu â 142 cwch yn 2015. Nodwyd bod tueddiad i gychod fod yn fwy o ran maint. Roedd 21 cwch wedi gadael yn 2016 gydag 17 cwch newydd wedi angori yn yr Harbwr yn 2016.
- Nodwyd bod 37 cwch pwer wedi cofrestru yn yr Harbwr yn 2016 sydd yn cymharu gyda 30 a gofrestrwyd yn 2015. Cadarnhawyd bod 31 cwch pŵer wedi ei gofrestru ym Morfa Bychan o gymharu â 14 a gofrestrwyd yn 2015.
- Ni dderbyniwyd sylwadau o ran y Côd Diogelwch Morwrol yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf.

- Bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn adolygu'r côd diogelwch ac y gobeithir y bydd Uwch Arolygydd Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn fuan yn 2017 i'w archwilio a chyflwyno adborth ar y côd.
- Fe edrychir ar Is-ddeddfau'r Harbwr yn y Gwanwyn gyda'r bwriad i'w cyflwyno a rhoi mewn grym i gynorthwyo gyda delio efo'r broblem o oryrru. Cyfeiriwyd at ymgyrch Neifion a lansiwyd yn yr haf er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â'r awdurdodau os ydynt yn amau fod rhywun yn aflonyddu ar fywyd gwyllt y môr a thorri'r Côd Diogelwch Morwrol.
- Cynhaliwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar 26 Gorffennaf 2016. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau'r cymhorthion mordwyo o gymharu ag adroddiadau blaenorol.
- Gwnaed buddsoddiad sylweddol yng Nghwch y Dwyfor a chadarnhawyd y byddai'n cael ei lleoli ym Mhorthmadog i gynorthwyo gyda chynnal a chadw cymhorthyddion mordwyo yn yr Harbwr.
- Nid oedd unrhyw rybudd i forwyr mewn grym yn harbwr Porthmadog.
- Bod cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr (tymhorol) Porthmadog wedi dod i ben 30 Medi 2016. Nodwyd er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y Sir, roedd cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Abermaw ac Aberdyfi wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2016. Eglurwyd y byddai Cymhorthydd Harbwr Abermaw yn cael ei ail leoli i Borthmadog am y cyfnod cychwynnol er sicrhau cymorth ychwanegol ym Mhorthmadog dros fisoedd y gaeaf.
- Bod cyfnod secondiad yr Harbwr Feistr yn cael ei adolygu'n gyfnodol.
- Y derbyniwyd ymholiad gan gwmni llongau masnachol yng nghyswllt mewnforio cargo trwm ar gyfer gorsaf bŵer cyfagos ar fwrdd llongau masnachol i Borthmadog. Nodwyd y tynnwyd sylw'r cwmni i'r cymhlethdodau a chadarnhawyd pe byddai penderfyniad i fewnforio, y cwmni a fyddai'n gyfrifol am unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r bwriad.
- Y sefyllfa gyllidebol hyd at ddiwedd Medi 2016, gan nodi na ragwelir y cyrhaeddir y targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- Bod y system Teledu Cylch Cyfyng a fuddsoddwyd ynddo er gwarchod eiddo a defnyddwyr yr Harbwr wedi bod o gymorth i'r Heddlu wrth ymchwilio i 3 achos.
- Fe argymhellir cynyddu ffioedd Harbwr Porthmadog ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, 2% ar gyfartaledd er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth. Nodwyd y credir bod y ffioedd dal yn rhesymol o ystyried yr adnoddau yn yr Harbwr a'r buddsoddiad a wneir. Eglurwyd y byddai'r Aelod Cabinet - Economi yn cadarnhau'r ffioedd yn fuan yn 2017.

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at achosion lle'r oedd aelodau'r cyhoedd a oedd yn tramwyo ar Fanc y Gogledd ar lanw isel wedi mynd i drafferthion pan fo'r llanw yn dod i mewn. Nodwyd bod ymgais wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r mater gyda thaflenni wedi eu rhannu o amgylch y meysydd carafanau. Eglurwyd bod arwydd yn y fynedfa ac arwyddion yn Ffordd Gwydryn yn nodi'r perygl a pan fo staff y Cyngor yn bresennol y gallent adrodd i'r gwasanaethau brys. Nodwyd y cynhelir adolygiad o'r sefyllfa i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Adroddwyd y derbyniwyd llythyr o ddiolch gan unigolyn a oedd wedi derbyn cymorth gan staff y Cyngor, Gwylwyr y Glannau ynghyd â'r Bad Achub.

Rhoddwyd cyfle i Gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub gyflwyno adroddiad ar y mater. Nododd bod Bad Achub Cricieth wedi achub 11 o unigolion yn yr ardal yma yn ystod y flwyddyn bresennol a'i fod yn bryderus tu hwnt o'r sefyllfa. Tynnodd sylw bod Sefydliad y Bâd Achub wedi cynnal archwiliad o ddiogelwch ardal Portmeirion rhai blynyddoedd yn ôl a bod y gwelliannau a roddwyd mewn lle yn dangos eu gwerth gan mai ond un galwad a dderbyniwyd yn yr ardal yma eleni ac nid oedd unrhyw ddigwyddiad yn ystod 2015. Amlygodd ei bryder nad oedd yr arwyddion yn ardal Banc y Gogledd yn unffurf ac yn

safonol. Awgrymodd y dylid gofyn i Sefydliad y Bâd Achub gynnal archwiliad diogelwch yn ardaloedd aber y Glaslyn a Thraeth y Graig Ddu.

Nododd aelodau eu cefnogaeth i gynnal archwiliad diogelwch a chael sgwrs ddilynol i edrych ar sut y gellir gwella'r sefyllfa o fewn yr adnoddau.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod her sylweddol yn amlygu ar yr arfordir o ran cyflawni'r dyletswyddau statudol tu mewn i'r gyllideb. Yn wyneb yr her ariannol bod rhaid cydweithio efo asiantaethau eraill i sicrhau darpariaeth ac fe groesawir cymorth Sefydliad y Bâd Achub i ychwanegu at arbenigedd staff y Cyngor i ddelio efo'r mater. Nodwyd bod yr arwyddion yn yr ardal yma yn cyd-fynd ac arwyddion ar weddill arfordir Gwynedd er sicrhau cysondeb ar draws y Sir. Ychwanegwyd y dylid rhoi ystyriaeth i ddatrysiadau lleol i ymateb i sefyllfaoedd ac i edrych ar rôl endidau eraill.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n cysylltu efo Sefydliad y Bâd Achub yng nghyswllt archwiliad diogelwch.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i staff Gwylwyr y Glannau, Bad Achub a'r Cyngor am eu gwaith.

Manylodd yr Harbwr Feistr ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith arall sydd angen ei wneud. Nododd aelodau eu diolch i'r staff am ymateb mor fuan â phosib pan hysbysir hwy o waith oedd angen ei wneud.

Derbyniwyd diweddariad gan Gynrychiolydd Buddiannau Hamdden ar gynllun Clwb Hwylio Porthmadog i osod pontwns ar wal yr Harbwr. Nododd bod astudiaethau dichonoldeb yn parhau ac fe obeithir cadarnhau'r sefyllfa erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y cynrychiolydd bod gwaith i'w gwblhau cyn y gellir ymgynghori a defnyddwyr eraill yr Harbwr.

## 5. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 8 Mawrth, 2017.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.35pm a daeth i ben am 6.50pm

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **08 Mawrth 2017** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

**1. Cod Diogelwch Morwrol**

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' sydd yn cael ei adolygu yn reolaidd gan y Gwasanaeth. Mae hefyd yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol Harbwr Porthmadog.

1.2 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 neu ar ddechrau 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

1.3 Roedd y Gwasanaeth yn mawr obeithio derbyn adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ym mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd diffyg capasiti nid yw'r archwiliad wedi ei gynnal ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i ail drefnu'r adolygiad. Rhagwelir bydd yr adolygiad nawr yn cael ei gynnal ym mis Medi 2017.

**2. Materion Gweithredol**

2.1 **<u>Mordwyo</u>**

2.1.1 Fe fydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 31ain Gorffennaf 2017. Oherwydd y buddsoddiadau diweddar rhagwelir bydd yr adroddiad yn cadarnhau parhad mewn gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Porthmadog.

2.1.2 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.1.3 Mae 2 Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Porthmadog. Mae'r rhybudd yn gyfredol ar gyfer Bwi Rhif 1 (Traethell) - sydd ddim ar ei safle (rhybudd rhif 10.) Nid yw cymhorthydd Bwi Rhif 3 (rhybudd rhif 9) ar ei safle ac fe rybuddir morwyr i fordwyo gyda gofal yn yr ardal hon hyd fydd y cymhorthion wedi eu hail leoli ar eu safle cywir. Mae Tŷ'r Drindod wedi eu hysbysu o'r sefyllfa ym Mhorthmadog drwy system PANAR.

2.1.4 Fe fydd yn fwriad i gynnal a chadw'r Bwi Tramwyo presennol gan ddod a'r bwi presennol i'r lan fel gallai staff ei gynnal a chadw. Fe fydd y Gwasanaeth yn comisiynu contractwr i ymgymryd â'r gwaith ac fe fydd angen sicrhau fod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn Gŵyl y Sulgwyn 2017.

2.1.5 Mae sianel fordwyo Harbwr Porthmadog wedi newid yn sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf yn enwedig yn ardal Cwt Powdwr. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel er ceisio sicrhau fod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliad fwyaf addas. Oherwydd y newid cyson yn y sianel mae sicrhau fod y cymhorthion yn eu safle cywir yn heriol.

2.2 **Cynnal a chadw**

2.2.1 Cyflwynir diweddariad ynglŷn â rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Porthmadog gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a gafodd ei gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.3 **Materion Staff**

2.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) i ben ar y 30ain Medi 2016. Fel yr adroddwyd ymestynwyd cytundeb gyflogaeth dau gymhorthydd Harbwr hyd at y 31 Rhagfyr 2016. Er sicrhau parhad gwasanaeth a chyflawni gwaith allweddol mae'r swyddi wedi eu hymestyn ymhellach a hyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 a hyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos, sef Dydd Mawrth, Mercher ac Iau.

2.3.2 Mae'r ddau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach oddi fewn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn cefnogi a galluogi'r Gwasanaeth er ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw yn harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf. Mawr obeithir bydd y swyddi yn dychwelyd yn llawn amser mewn tri Harbwr o'r 1af Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

2.4 **Materion Eraill**

2.4.1 **Arwyddion**. Fe fydd y gwasanaeth, ar y cyd gydag asiantaethau eraill, yn cynnal adolygiad pellach o arwyddion diogelwch yr Harbwr, arwyddion diogelwch traeth Morfa Bychan ac arwyddion diogelwch arfordir ardal Cwt Powdwr yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe fydd y Gwasanaeth yn ystyried unrhyw newid a fydd wedi ei adnabod yn ystod yr archwiliad.

2.4.2 Mae swyddogion y gwasanaeth eisoes wedi ymweld â safle Portmeirion ac wedi nodi'r math arwyddion a geiriad yr arwyddion a ddefnyddir yn yr ardal hon. Mae arwyddion newydd wedi eu gosod ar draeth y Graig Ddu er ceisio tynnu sylw at beryglon Banc y Gogledd ac fe fydd arwyddion ychwanegol yn cael eu gosod ar y safle yn ystod mis Mawrth.

2.4.3 Ysgolion Harbwr. Mae tair ysgol wedi ei adnewyddu yn ardal y cei ac fe ragwelir bydd ysgolion eraill yn cael eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn nesaf.

2.4.4 Mae cwch a fu wedi eu gadael i ddirywio ger Cei Balast wedi eu diogelu ac wedi eu symud i ardal y llithrfa. Fe fydd y Gwasanaeth yn cysylltu gyda'r perchennog gan dynnu sylw bydd yn fwriad gwerthu neu waredu'r cwch oni bai bod y cwch yn cael ei chludo o'r Harbwr yn ystod y ddeufis nesaf.

**3. Materion Ariannol**

3.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr sydd yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol Harbwr Porthmadog yn atodol. Rhagwelir bydd y proffil gwariant yng nghyd fynd a rhagolwg y 3ydd Chwarter.

3.2 Yn ystod y cyfnod diwethaf bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Cynllun cynnal a chadw angorfeydd Harbwr Porthmadog
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd ac adeiladau'r harbwr.

3.3 Mae'r cyllidebau yn cael eu monitro yn fisol ac mae Adolygiad Ail Chwarter wedi ei gynnal yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Hydref. Mae'r atodiad yn adlewyrchiad o'r adolygiad 2il Chwarter.

3.4 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Porthmadog 2017 eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau. Cadarnheir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth awgrymwyd fod ffioedd Harbwr Porthmadog yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Mae cynnydd yn y ffi Tollau Harbwr yn cael eu cysoni fel na fod yna wahaniaeth rhwng Ffi Leol a Ffi Eraill ar yr elfen Tollau Harbwr. Mae hyn yn golygu na fydd cynnydd yn y tollau Harbwr i rai sydd ddim yn breswyl llawn amser yng Ngwynedd.

3.5 Yn 2017 bydd angen i'r Cyngor ychwanegu ffi am bob angorfa ym mhob Harbwr sydd dan reolaeth y Cyngor. Mae'r ffi wedi ei ychwanegu gan Stad Y Goron sydd yn hawlio £25.00 am bob angorfa yn yr harbwr. Mae gofyn fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, yn codi ac yn casglu'r ffi hwn ar ran Stad Y Goron. Nid oes TAW ynghlwm a'r ffi ychwanegol. Mae'r ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyn fod y taliad hwn yn cael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

3.6 Pwysleisir mai ail ddrafft yn unig a fydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau hyd yma ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio cyn diwedd Mawrth 2017. Mae holl gwsmeriaid yr Harbwr wedi derbyn copi o'r ffioedd arfaethedig a ffurflen cais am angorfa ar gyfer 2017/18.

| Morwrol a Pharciau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DG53-PORTHMADOG | | Diwedd Ionawr 2017 | | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT | YMRWYMIAD | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 42,160 | 36,345 | 2,000 | (3,815) |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 21,350 | 2,384 | 5,000 | (13,966) |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 520 | 999 | 161 | 640 |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 9,590 | 12,001 | 2,000 | 4,411 |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (80,470) | (71,222) | (2,248) | 7,000 |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | (6,850) | (19,493) | 6,913 | (5,730) |

## *Harbwr Porthmadog Harbour*
## *2017/18*

DRAFT / PROVISIONAL

| Prisiau yn eithrio TAW | 2016-17 | 2016-17 | 2017-18 | 2017-18 | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|---|
| *Er manteisio ar y ffi 'lleol' mae yn hanfodol fod daliwr yr angorfa wedi bod yn breswyl yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd am y bum mlynedd diwethaf.* | **Lleol Local Ex. VAT** | **Eraill Others Ex.VAT** | **Lleol Local Ex. VAT** | **Eraill Others Ex.VAT** | *For a 'local' rate to apply the applicant must have been resident in Gwynedd on a permanent and full time basis for the previous five years* |
| Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch) | **32.70** | **34.00** | **34.00** | **34.00** | Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels) |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW) | **-** | **-** | **25.00** | **25.00** | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt) |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1 | **321.42** | **396.29** | **327.85** | **404.22** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2 | **299.47** | **376.53** | **305.46** | **384.06** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3 | **277.49** | **352.35** | **283.04** | **359.40** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1 | **289.03** | **363.34** | **294.81** | **370.61** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2 | **267.05** | **341.13** | **272.39** | **347.95** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3 | **245.09** | **321.59** | **249.99** | **328.02** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1 | **188.07** | **233.06** | **191.83** | **237.72** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3 | **144.14** | **189.12** | **147.02** | **192.90** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest | **44.14** | **44.14** | **45.02** | **45.02** | Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest |
| | | | | | |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | **5.00** | **-** | **5.00** | | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | **-** | **6.67** | | **6.67** | All Other Visiting Vessels |
| | | | | | |
| ***Ardal 4 Borth-y-Gest*** | | | | | ***Area 4 Borth-y-Gest*** |
| Pris y fedr am flwyddyn | **18.89** | **34.00** | **19.65** | **34.68** | Price per meter per annum |
| | | | | | |
| Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod | **0.66** | **0.66** | **0.66** | **0.66** | Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day |
| | | | | | |
| Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr | **1418.59** | **-** | **1446.96** | **-** | Park and Launch License – max 50 vessels |
| Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau | **-** | **-** | **-** | **-** | Launching fees – as per beach launching fees |
| Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr | **151.60** | **151.60** | **154.63** | **154.63** | Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring (Discretionary) |

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2017 – 31/03/2018**

**Holl ffioedd ddim yn cynnwys TAW / All fees exclusive of VAT**


| **Ffi Adnewyddiad** (Trwyddedau Bach) | **2016/17** | **Renewal Fees** (Small Permits) |
|---|---|---|
| **Ail-cofrestru Blynyddol** | £25.00 | **Annual Re-registration** |
| **Ceisiadau Llestr Newydd** (Trwyddedau Mawr a Bach) | | **New Vessel Applications** (Large and Small Permits) |
| **Cofrestru Blynyddol** | £33.33 | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol**<br>**Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)** | £8.33<br>£10.83 | **Daily launch – General Slipways/Beaches**<br>**Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)**<br>**Cynnwys Ffi Cofrestru** | £116.67 | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)**<br>**Inclusive of Registration Fee** |
| **Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.**<br>**In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.** | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli** | £33.33 | **Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli** |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig**<br><br>**Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio** | £20.83 | **Annual Registration Fee – In Person Application Only**<br><br>**At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection** |

# Harbwr Porthmadog Harbour

**Mae'r sianel yn newid cwrs yn rheolaidd. Cynghorir bod morwyr yn cysylltu gyda'r Harbwrfeistr am y wybodaeth diweddaraf.**

**The channel changes course regularly. Please contact the Harbourmaster for the latest information.**

**01766 512927 / 07879 433147**
**VHF: 12 / 16**




**Nid yw cael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo**
**Not to be used for navigation**

**Harbwr Porthmadog Harbour**
**Latitude & longitude**
**As from the 05/01/2017**

| Fairway | LFlw 10s | 52° 52. 351 N | 004° 10. 013 W |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | Q FL R | 52° 52. 476 N | 004° 09. 566 W |
| 3 | | | |
| 4 | FL R(2)5s | 52° 52. 795 N | 004° 09. 240 W |
| 5 | FL G(2)5s | 52° 53. 080 N | 004° 09. 377 W |
| 6 | FL R (3)10s | 52° 53. 428 N | 004° 09. 646 W |
| 7 | FL G (3)10s | 52° 53. 787' N | 004° 09. 353 W |
| 9 | FL G (4)15s | 52° 54. 099 N | 004° 09. 099 W |
| 11 | FL G (5) 20s | 52° 54. 353 N | 004° 08. 905 W |
| Temp | Unlit | 52° 54. 488 N | 004° 09. 054 W |
| 8 | FL R (4)15s | 52° 54. 521 N | 004° 09. 068 W |
| 10 | FL R 2.5s | 52° 54. 587 N | 004° 09. 005 W |
| 13 | FL G 2s | 52° 54. 604 N | 004° 08. 644 W |
| 12 | FL R 4s | 52° 54. 638 N | 004° 08. 302 W |
| 14 | FL R 6s | 52° 54. 764 N | 004° 08. 147 W |
| 15 | FL G (2) 5s | 52° 54. 884 N | 004° 07. 968 W |
| 17 | FL G 6s | 52° 55. 015 N | 004° 07. 866 W |

Cynghorir morwyr i beidio â mordwyo dros y draethell oni bai
Oddi fewn 2 awr pob ochr pen llanw (dibynnol ar gyflwr y môr )
I gychod gyda draft fwy na 1.5m cynghorir morwyr i beidio mordwyo
Dros y draethell oddi fewn 1,5 awr bob ochor pen llanw.

The channel should not be used at any time, other than 2hrs Either side
Of High water (Dependant on sea state) Vessels with A draft greater
Than 1.5 should only use the Channel 1.5hrs Either side of high water.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
Uned Morwrol a Pharciau Gwledig
Maritime and Country Parks Unit

**Harbwrfeistr Harbourmaster**
**malcolmhumphreys@gwynedd.gov.uk**